# Defnyddio'r Mynegai A'r Catalogau Yn Yr Archifdy

## Sgiliau Cyfeirio

Gwnewch siwr y medrwch chi wneud tasgiau cyffredinol megis defnyddio:

- catalog llyfrgell
- tudalen cynnwys mewn llyfr
- mynegai mewn llyfr llyfryddiaeth
- troednodion
- llyfrau cyfeirio

Bydd angen y math hyn o sgiliau arnoch chi er mwyn defnyddio'r archifau'n iawn.

## Sut i Gael Hyd i Bethau

Ni chaiff y cyhoedd fynd i mewn i'r stafelloedd storio dogfennau felly mae rhaid defnyddio cymhorthau chwilio (fel y mynegai a'r catalogau) i ddarganfod pa ddogfennau a pha luniau sydd i'w cael.

## Cyfeirnod Y Ddogfen

Cyn i staff yr Archifdy gael dogfen allan i chi mae rhaid iddyn nhw wybod ei chyfeirnod. Mae cyfeirnod unigryw i bob un ddogfen a llun. Mae tair rhan i'r cyfeirnod:

1. Ble cedwir y ddogfen:-
   **X** - Caernarfon
   **Z** - Dolgellau.

2. Rhif neu enw'r casgliad:
   **M** - miscellaneous
   **Vaynol** - Stad y Faenol
   **DQ** - Chwareli Dinorwig
   **NWC** - North Wales Chronicle
   **NWQU** - North Wales Quarrymen's Union
   **S** - Lluniau

   ag ati

3. Rhif y ddogfen unigol o fewn y casgliad:
   e.e. **X**/**Vaynol**/3412
   **XS**/2744
   **XM**14819

Dyma'r cyfan sydd ei angen ar y ffurflen archebu er mwyn cael dogfen i chi ei gweld. Nodwch gyfeirnod pob dogfen 'dach chi'n edrych arni, rhag ofn y byddwch chi eisiau ei gweld eto. Os ydych chi'n gwneud prosiect arholiad dylech chi gyfeirio at bob dogfen a ddefnyddir gan roi'r cyfeirnod archifol.

## Y Mynegai
Mae'r mynegai yn hawdd a chyflym i'w ddefnyddio. Mae mynegai gwahanol ar gyfer dogfennau, lluniau, mapiau, catalogau arwerthiant, cofnodion addysgol.

Mynegai personau - Yn nhrefn yr wyddor yn ôl y cyfenw.

Mynegai llefydd - Yn nhrefn yr wyddor eto, ond, i gael hyd i lefydd bychain, bydd rhaid i chi chwilio o dan enw'r plwyf. Mae llefydd mawr yn cael eu rhestri dan eu henwau eu hun, ond mae bob amser yn werth edrych o dan enw'r plwyf hefyd. Y cam cyntaf felly ydy gwybod enw'r plwyf. Mae mapiau yn yr Archifdy i'ch helpu chi gael y wybodaeth hon.

Mynegai pynciau - Dosberthir pynciau o dan benawdau bras megis Amaethyddiaeth, Cyfraith a Threfn, Masnach a Diwydiant ag ati. Os byddwch chi eisiau, er enghraifft, wybodaeth ar amgau tir neu ar ffermydd neu anifeiliaid fferm yna chwiliwch o dan Amaethyddiaeth. Mae yna restr o bynciau a'u cynnwys os nad ydych chi'n siwr pa benawd 'dach chi ei angen.

## Y Catalog
Mae catalogau'n rhestru holl gynnwys casguad fesul eitem. Mae'r manylion yn llawnach fel arfer na manylion y mynegai.

Cynhyrchir catalogau er mwyn profi tarddiad dogfen - rhywbeth a all fod yn bwysig iawn i hanesydd. Trefnir eitemau mewn catalog yn ôl sut y'u gweinyddid nhw yn wreiddiol - o dan yr adran neu'r sefydliad a wnaeth eu cynhyrchu nhw neu eu derbyn nhw.

Er ei bod yn cymryd amser hir i ddarllen trwy gafalogau fe all fod yn ddefnyddiol iawn - weithiau yn eich cyfeirio chi at lawer mwy o ddogfennau na'r mynegai.

## Y Staff
Peidiwch â bod yn swil am drafod eich prosiect efo swyddogion addysg yr Archifdy neu efo staff y stafell ymchwil. Mi fedran nhw fod o help mawr i chi. Maen nhw'n 'nabod y casgliadau'n dda ac yn aml mi fedran nhw arbed eich amser. Eto mae bob amser yn werth chwilio yn y cymhorthau chwilio hefyd i gael hyd i ddeunydd ychwanegol eich hunan.

## Llyfrgell yr Archifdy
Mae llyfrgell yr Archifdy yn llawn o ddeunydd perthnasol. Ceir llyfrau a phamffledi ar hanes Cymru a Gwynedd. Ceir erthyglau yng nghylchgronau'r cymdeithasau hanesyddol sydd hefyd yn bwysig iawn. Mae llawer o hen adroddiadau, cyfarwyddiaduron masnach, llyfrau teithwyr a disgrifiadau'r ardal leol yma hefyd.

Mae mynegai ar wahan ar gyfer llyfrgell yr Archifdy, wedi'i drefnu o dan enwau awduron a phynciau.